# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 27 Tachwedd 2023

## SL(6)416 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi’r Cofrestrau Etholiadol) (Cymru) 2023

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae’r Rheoliadau hyn yn pennu dyddiad diwygiedig ar gyfer diwedd y cyfnod y mae rhaid i fersiynau diwygiedig y cofrestrau o etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru gael eu cyhoeddi ynddo gan swyddogion cofrestru o dan adran 13(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, yn dilyn canfasiad blynyddol yn 2024.

Mae Rheoliad 28 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio’r Etholfraint ac Adolygu Cymhwystra) 2023 yn ymestyn y terfyn amser erbyn pryd y mae rhaid i swyddogion cofrestru gyhoeddi fersiynau diwygiedig y cofrestrau o etholwyr seneddol y Deyrnas Unedig a gynhelir ar gyfer ardaloedd yng Nghymru, am y flwyddyn 2024, hyd at 1 Chwefror 2025.

Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn hefyd yn ymestyn y terfyn amser erbyn pryd y mae rhaid i swyddogion cofrestru gyhoeddi fersiynau diwygiedig y cofrestrau o etholwyr llywodraeth leol a gynhelir ar gyfer ardaloedd yng Nghymru, ar gyfer y flwyddyn 2024, hyd at 1 Chwefror 2025.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn yn nodi:

“Mae hyn i bob pwrpas yn caniatáu dau fis ychwanegol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru gyhoeddi eu cofrestrau etholiadol llywodraeth leol diwygiedig i ystyried y gofyniad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol adolygu cymhwysedd dinasyddion yr UE sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru i bleidleisio mewn etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.”

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

**Fe’u gwnaed ar:** Heb ei nodi

**Fe’u gosodwyd ar:** Heb ei nodi

**Yn dod i rym ar:** 11 Rhagfyr 2023

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**